

Atodiad 2

Gweithgaredd Rheoledig

Bydd angen gwiriad manylach gyda Rhestr Waharddedig ar gyfer rhywun y tybir bod ei ddyletswyddau ef/ei dyletswyddau hi yn Weithgaredd a Reoleiddir naill ai ar gyfer Plant neu Oedolion neu'r ddau. Mae'r broses ymgeisio yr un fath â'r gwiriadau eraill.

Mae gweithgareddau a reoleiddir, sy'n gysylltiedig â phlant, yn cynnwys:

- unrhyw weithgaredd o natur benodol sy'n golygu cyswllt â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed yn aml, yn ddwys ac/neu dros nos. (Mae'r gweithgareddau hynny'n cynnwys addysgu, hyfforddi, gofalu, goruchwyllo, cyngor, triniaeth a chludiant.)
- unrhyw weithgaredd sy'n golygu cyswllt â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed mewn lle penodol yn aml neu'n ddwys. (Mae'r llefydd hynny'n cynnwys yr ysgolion a'r cartrefi gofal, ond nid ydynt yn cynnwys y Prifysgolion.)
- maethu a gofal plant.

Mae 'gweithgareddau a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant' yn golygu gweithgareddau sy'n digwydd yn aml (unwaith yr wythnos neu fwy) neu'n 'ddwys' (mae'n digwydd ar bedwar diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod).

Nid oes rheidrwydd i wneud y gweithgareddau isod nifer penodol o weithiau lle mae gweithgareddau a reoleiddir sy'n ymwneud ag oedolion yn y cwestiwn. Os bydd unrhyw un o'r gweithgareddau a reoleiddir yn cael eu cynnal bydd angen gwneud cais am wiriad y rhestr waharddedig gydag oedolion. Mae chwe chategori yn niffiniad y gweithgareddau a reoleiddir gydag oedolion. Sef:

Gofal iechyd - a ddarperir gan unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol, neu o dan oruchwyliaeth un;

- Gofal personol - golchi a gwisgo, bwyta, yfed a'r toiled;
- Gwaith Cymdeithasol - mewn cysylltiad ag Iechyd neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Help gyda materion y cartref - arian parod, biliau, siopa;
- Help gyda materion cyfreithiol - Atwrneiaeth/dirprwyon a benodir o dan y Ddeddf Gallu Meddyliol;
- Trosglwyddo oedolyn - o raid mae hynny ar gyfer gofal iechyd, personol neu gymdeithasol oherwydd oedran, salwch neu anabledd. Nid yw hyn yn cynnwys gyrwyr tacsis.

Ymhle yn y Brifysgol y mae'n debygol y bydd 'gweithgaredd a reoleiddir'?

Mae'r Adran Addysg (DfE) yn dweud bod gweithgaredd a reoleiddir yn debygol o ddigwydd mewn perthynas ag AU o dan yr amgylchiadau canlynol:

- bydd rhai myfyrwyr ar leoliadau mewn gweithleoedd a drefnir gan sefydliadau addysg uwch (SAU) yn cynnal gweithgareddau a reoleiddir
- Mae'n bosib y bydd staff neu fyfyrwyr SAU yn dod i gysylltiad â phlant wrth wneud gwaith allgymorth cyflogedig neu wirfoddol gyda'r ysgolion

- Mae'n bosib y bydd staff neu fyfyrwyr SAU yn dod i gysylltiad â grwpiau sy'n agored i niwed trwy eu gwaith academaidd neu'u hymchwil.
- Mae'n bosib y bydd rhai o staff SAU sy'n gweithio mewn canolfannau / amgylcheddau iechyd neu unedau cymorth dysgu yn gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed

Ni fydd y staff sy'n gweithio ym mhreswylfeydd y myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau a reoleiddir os nad yw gofal neu oruchwyliaeth dros fyfyrwyr yn rhan o'u swyddi.